# BE THE WAVE
# AR FRIG Y DON

# Llyfredd Plastig

Cynllun Gwers




cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

MARINE CONSERVATION SOCIETY

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

| Pwnc Eco-Sgolion | Nodau Byd-eang |
|---|---|
| • Lleihau Gwastraff<br>• Bioamrywiaeth | • 12 Defnydd  a ChynhyrchuCyfrifol<br>• 14 Bywyd o Dan y Dŵr |

**Nodau**

- Datblygu dealltwriaeth o lygredd plastig a'r effaith y gall hyn ei chael ar yr amgylchedd morol a'r bywyd gwyllt mae'n ei gefnogi.
- Deall y gall unigolion wneud dewisiadau pob dydd am eu harferion defnydd a gwaredi er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i lygredd plastig ac iechyd y cefnforoedd.

**Amcanion**

- Datblygu dealltwriaeth o blastig, ei wydnwch a'i ddefnydd yn fyd eang.
- Esbonio effeithiau llygredd plastig ar yr amgylchedd morol.
- Cymhwyso gwybodaeth o lygredd plastig i fywyd bob dydd drwy weithredu #ArFrigYDon a rhaglen Eco-Sgolion.

**Cysylltiadau â'r Cwricwlwm yng Nghymru**

**Diben**

Dysgwyr uchelgeisiol galluog sy'n:

- Adeiladu corff o wybodaeth
- Gallu esbonio'r syniadau a'r cysyniadau y maent yn dysgu amdanynt
- Gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn cyd-destunau gwahanol

Cyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n:

- Mynegi syniadau ac emosiynau drwy gyfryngau gwahanol

Dinasyddion moesegol a gwybodus sy'n:

- Defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn
- Ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- Dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned

| Beth sy'n Bwysig | Cam Cynnydd: Tri/Pedwar |
|---|---|

Dyniaethau:

- Cael dealltwriaeth o'm cyfrifoldebau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol fy hun ac eraill wrth greu dyfodol cynaliadwy.

Mathemateg a Rhifedd:

- Gwneud dewisiadau gwybodus am sut i drefnu a chynrychioli data, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o graffiau a siartiau gan gynnwys siartiau cylch, diagramau amlder a pholygonau amlder.
- Defnyddio graddfeydd gwahanol i echdynnu a dadansoddi gwybodaeth o amrywiaeth o ddiagramau, tablau a graffiau gan gynnwys siartiau cylch gyda ffracsiynau syml a chyfrannau syml ac adnabod unrhyw dueddiadau a welir.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg:

- Esbonio sut mae effaith ein gweithredoedd yn cyfrannu tuag at newidiadau yn yr amgylchedd a bioamrywiaeth.

| Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd | Cam Cynnydd: Pedwar |
|---|---|

Ysgrifennu

- Defnyddio'r ystod lawn o atalnodi'n gywir (gan gynnwys colon, hanner colon, a chromfachau) i egluro, trefnu ac ehangu ystyr.
- Addasu fy arddull ysgrifennu, gan ddewis a defnyddio'r strwythurau gorau ar gyfer gwahanol gyd-destunau a dibenion, e.e. disgrifio'n llwyddiannus, esbonio, perswadio, trafod. Gallaf ddewis a defnyddio strategaethau addas i gynllunio a datblygu fy ngwaith ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd.
- Trefnu a llunio fy ysgrifennu'n effeithiol, gan gysylltu a datblygu fy syniadau ar gyfer ysgol o gyd-destunau gwahanol.
- Dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod modelau tebygrwydd yn ein helpu i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus
- Dewis a llunio siartiau addas, diagramau a graffiau gyda graddfeydd priodol.
- Llunio a dadansoddi graffiau a diagramau (gan gynnwys siartiau cylch) i gynrychioli data arwahanol neu barhaus, gan ddefnyddio graddfa briodol.
- Dadansoddi graffiau sy'n disgrifio sefyllfaoedd bywyd go iawn, gan gynnwys y rhai a defnyddir yn y cyfryngau, gan adnabod y gall rai graffiau fod yn gamarweiniol.
- Dadansoddi gwybodaeth fathemategol; gan dynnu casgliadau o graffiau, diagramau a data, gan gynnwys trafodaeth ar gyfyngiadau data.

**Cynefin**

Annog disgyblion i wneud ymchwil ar rywogaethau morol a geir yng Nghymru e.e. siarcod angel, gwely glaswellt y môr.
Ymchwilio i gynlluniau Llywodraeth Cymru i wahardd eitemau plastig untro.

| Gweithgaredd Un | Adnoddau ac Offer |
|---|---|
| **Beth yw plastig?**<br><br>Y myfyrwyr i wylio'r 2 fideo<br><br>Plastic Pollution: How Humans are Turning the World into Plastic - YouTube<br>(9:01 efallai y byddwch eisiau stopio ar 4.22 pan mae'n newid i siarad am ficroplastigau.)<br><br>(21) The Present Problem - YouTube (0.36) | Pŵer Bwynt |
| Dyddiadur Plastigau<br>1. Rhowch dri munud i'r disgyblion restru popeth maen nhw wedi'i ddefnyddio heddiw sydd wedi'i wneud o blastig neu sy'n dod mewn deunydd pacio plastig (rhowch esiamplau os oes angen, megis bagiau grawnfwyd, poteli sudd, casyn beiro, tiwb past dannedd, casyn cyfrifiadur, cadeiriau ysgol ac yn y blaen.) Gallwch ddod â rhai esiamplau o ddeunydd | Beiro a Phapur |

| | |
|---|---|
| pacio plastig ac eitemau a chynnal trafodaeth gyda'r disgyblion am y rhai y maent yn eu defnyddio.<br>2. Yna mae disgyblion yn nodi'r eitemau ar eu rhestrau sy'n blastigau untro, h.y. y rhai sy'n cael eu taflu ar ôl cael eu defnyddio unwaith yn unig (rhowch esiamplau os oes angen, e.e. potel laeth: ydy; bowlen rawnfwyd blastig: Nac Ydy).<br>3. Trafodwch y rhestrau fel grŵp cyfan gan ganolbwyntio ar: faint o eitemau sydd wedi'u gwneud o blastig yn eu bywydau pob dydd sy'n eu synnu, pa ganran sy'n blastigau untro, ydyn nhw'n meddwl bod eitemau untro neu aml ddefnydd yn well neu'n waeth i'r amgylchedd, ac ati.<br><br>Yna mae'r disgyblion yn trafod y cyflwyniad data mwyaf addas ar gyfer y data gan gyfiawnhau hynny, fel arfer mae disgyblion yn creu siart cylch neu siart bar sy'n dangos canrannau plastig defnydd sengl neu blastig aml ddefnydd. | Papur Graff<br>Onglyddion |

| **Gweithgaredd Dau** | **Adnoddau ac Offer** |
|---|---|
| **Plastig – Beth yw'r broblem?**<br>Takeaway food and drink litter dominates ocean plastic, study shows \| Plastics \| The Guardian<br><br>Darllenwch yr adroddiad o'r Guardian.<br>Gofynnwch i'r disgyblion nodi'r ffeithiau yn yr erthygl a gwneud rhestr ohonynt.<br>Gofynnwch i'r disgyblion sut maent yn teimlo am y ffeithiau yn yr erthygl.<br><br>A all unrhyw un o'r eitemau yn yr erthygl gael eu lleihau neu'u gwaredu o'ch ysgol? A all y disgyblion ddod o hyd i ddewisiadau mwy cynaliadwy eraill?<br><br>Er mwyn ymestyn y gweithgaredd gwelwch y ffeithiau ychwanegol | Mynediad at offer TGCh<br><br>Cyflwyniad |

| **Gweithgaredd Tri** | **Adnoddau ac Offer** |
|---|---|
| **Effeithiau plastig – Plastig morol a bywyd gwyllt**<br><br>Gwyliwch y fideo Yr Ystafell Aros<br><br>Gofynnwch i'r myfyrwyr chwilio'r rhyngrwyd (trwy Google/Ecosia neu Ocean Hero) i ddarganfod delweddau o effaith llygredd plastig ar fywyd gwyllt morol. | Cyflwyniad<br><br>TGCh |

| | |
|---|---|
| Gan ddefnyddio'r rhain yn ogystal â gwybodaeth o weithgareddau un a dau, mae'r disgyblion yn dewis un rhywogaeth a datblygu stribed comig neu ddefnyddio TGCh i ddangos sut mae plastig morol wedi effeithio ar y rhywogaeth honno ac awgrymu atebion i'r broblem honno. E.e. mae crwbanod yn camgymryd bagiau plastig am eu ffynhonnell fwyd (pysgod jeli), mae'n rhwystro eu systemau treulio ac o ganlyniad, mae'r crwban yn llewygu'n araf. Mae atebion yn cynnwys gwahardd bagiau plastig untro.<br><br>Awgrymiadau posibl am atebion:<br>20 Actions to Reduce and Reuse plastic - Go! \| Ocean Generation<br><br>Dylid annog myfyrwyr i ddatblygu meini prawf llwyddiant ar beth sy'n gwneud stribed comig da. Efallai y byddwch eisiau i'ch disgyblion ymchwilio'r rhywogaethau ymhellach. | Papur a beiros<br>(Efallai y gallwch ddatblygu templed ar gyfer stribyn comig) |

| #ArFrigYDon |
|---|
| Cymhwyso'r wybodaeth a gasglwyd yn y wers ar waith fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Mae'n bwysig sicrhau bod disgyblion yn gwybod bod ganddynt y pŵer i weithredu a gwneud newidiadau o fewn eu bywydau eu hunain a'r ysgol. Mae hefyd yn gam cadarnhaol sy'n helpu i gydbwyso rhai o'r effeithiau negyddol a archwiliwyd yn y wers.<br><br>Penderfynwch ar weithred/camau i'w cymryd naill ai fel unigolion neu fel dosbarth, dyma rai awgrymiadau neu gallai'r dosbarth ddewis rhai eu hunain. |
| Ysgol:<br><br>• Defnyddiwch eich llais fel disgyblion a dod yn Ysgol Ddi-blastig gweler 'Plastic Free Schools  Surfers Against Sewage am fanylion<br>• Cymerwch ran yn y cynllun Gohebwyr Ifan yr Amgylchedd a ffocysu ar beryglon plastig morol i'n bywyd gwyllt.<br>• Rhannwch ffeithiau Sbwriel a Bywyd Gwyllt o'r RSPCA mewn gwasanaeth, cylchlythyr ysgol neu ar y cyfryngau cymdeithasol. |
| Unigolion:<br><br>• Byw gyda llai o blastig - Edrychwch ar https://www.refill.org.uk/refill-cymru/ a dod yn Bencampwr Ail-lenwi |

- Cefnogwch eich cangen Ymddiriedolaeth Natur Cymru leol neu WWF Cymru a darganfod mwy am y natur ar eich stepen drws
- Gwnewch ymchwil ar Living Seas Wales – helpwch gyda gwaith gwyddoniaeth dinasyddion neu ymunwch â digwyddiad

| **Gweithgareddau Eraill** | **Adnoddau ac Offer** |
|---|---|
| Codwch ymwybyddiaeth o'r gweithgareddau ymyrraeth sy'n cael eu dangos yn y fideo hon: https://youtu.be/QG8vNigOML4 | |
| Defnyddiwch y ddogfen ymgynghori https://llyw.cymru/lleihau-plastig-untro-yng-nghymru er mwyn annog trafodaeth ar gynnig Llywodraeth Cymru i wahardd eitemau defnydd untro. | |

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13